**Cofnodion Cyfarfod o PWYLLGOR CYDLYNU TROSOLWG A CHRAFFU a gynhaliwyd yn Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa, Aberaeron ac o bell trwy fideo gynhadledda ddydd Dydd Iau, 5 Mawrth 2026**

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd Wyn Evans (Cadeirydd), y Cynghorydd Keith Evans (Is-gadeirydd), y Cynghorwyr Marc Davies, Amanda Edwards, Elaine Evans, Gwyn Wigley Evans, Rhodri Evans, Chris James, Ceris Jones a Caryl Roberts.

**AELODAU'R CABINET A OEDD YN BRESENNOL:**
Cynghorydd Matthew Vaux, Aelod o'r Cabinet dros Bartneriaethau, Tai, Cyfreithiol a Llywodraethu, a Diogelu'r Cyhoedd; Cynghorydd Alun Williams, Aelod o'r Cabinet dros Lesiant Gydol Oes; Cynghorydd Catrin M.S. Davies, Aelod o'r Cabinet dros Ddiwylliant, Hamdden a Gwasanaethau Cwsmeriaid; Cynghorydd Gareth Davies, Aelod o'r Cabinet dros Gyllid a Chaffael.

**SWYDDOGION YN BRESENNOL:** Duncan Hall, Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Cyllid a Chaffael a Swyddog Adran 151; Lowri Edwards, Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Democrataidd; Timothy Bray, Rheolwr Partneriaethau ac Argyfyngau Sifil; Diana Davies, Rheolwr Corfforaethol, Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd; Elizabeth Upcott, Rheolwr Corfforaethol, Sicrhau Ansawdd a Diogelu; Katy Sinnett-Jones, Swyddog Llywodraethiant, Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu; Emma Parry-Jones, Swyddog Safonau a Chraffu; Dwynwen Jones, Swyddog Trosolwg a Chraffu; a'r Cyfieithwyr.

**HEFYD YN BRESENNOL:**
Aelodau eraill: y Cynghorydd Gareth Lloyd a Hazel Lloyd-Lubran, Cadeirydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

(10am-12.30pm)

1 **Ymddiheuriadau**
Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.
Roedd Elin Prysor wedi ymddiheuro am nad oedd modd iddi fod yn bresennol yn y cyfarfod.

2 **Datgelu buddiant personol (gan gynnwys datganiadau chwipio)**
Gwnaeth y Cynghorydd Rhodri Evans ddatgan buddiant personol mewn perthynas ag eitem 4.

3 **Cyhoeddiadau'r Cadeirydd**
Dim.

4 **Cofnodion Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus**
Bu i'r Cadeirydd groesawu Hazel Lloyd-Lubran, Cadeirydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a Phrif Weithredwr CAVO; Timothy Bray, Rheolwr Partneriaethau ac Argyfyngau Sifil; a Diana Davies, Rheolwr Corfforaethol, Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd.

Cyflwynwyd i'r Pwyllgor gofnodion drafft cyfarfod Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion a gynhaliwyd ar 1 Rhagfyr 2025 a chofnodion drafft y cyfarfod a gynhaliwyd ar 9 Chwefror 2026.

Mae gwaith ar y gweill i gysoni gweithgarwch gyda Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Gaerfyrddin. Mae Asesiad o Lesiant Lleol ar y cyd yn cael ei ddatblygu ar gyfer y ddwy sir, a bydd y gwaith o gyflawni'r Cynlluniau Lles Lleol cyfredol yn cael ei adolygu. Rhoddir cynllun llai manwl ar waith ar gyfer 18 mis cyntaf y Bwrdd unedig newydd hyd nes y cyhoeddir y Cynllun Llesiant Lleol llawn nesaf sydd i fod yn 2028.

Mae gwaith diweddar wedi canolbwyntio ar yr economi ac ar agwedd system-gyfan tuag at bwysau iach. Cynhaliwyd gweithdy yng Nghaerfyrddin ar 4 Mawrth a bydd y Bwrdd nawr yn ystyried pa gamau y gellir eu cymryd i wella mynediad pobl at fwyd da a maethlon. Mae hyn yn cynnwys edrych ar ffyrdd o gynyddu'r cyfleoedd i bobl brynu bwyd iach yn lleol.

Mae cyfarfod pellach wedi'i drefnu yn ddiweddarach y mis hwn. Y nod yw gweithio ar y cyd i ddatblygu strategaeth fwyd. Bydd y strategaeth yn cael ei llywio gan y trafodaethau hyn, a bydd yn bwysig ein bod wedi hynny yn ei gweithredu'n effeithiol.

Diolchodd yr aelodau i'r swyddogion am eu gwaith. Nodwyd bod Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Benfro wedi dewis peidio ag uno â Cheredigion a Sir Gâr. Gofynnwyd am eglurhad ynghylch a oedd cyfarfodydd wedi dechrau a phryd y gellid disgwyl y bydd ar waith. Cadarnhawyd bod amserlen ar waith a bod y gwaith ar uno gyda Sir Gâr eisoes ar y gweill a'r cyfarfod cyntaf wedi'i gynllunio ar gyfer mis Medi. Bydd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus unedig Sir Gaerfyrddin a Cheredigion hefyd yn gweithio gyda Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus Powys a Sir Benfro fel rhan o'r broses ehangach.

Gofynnwyd am eglurhad pellach ar y gwahaniaeth rhwng uno a chydweithio, ac a oedd tiriogaeth ehangach Dyfed yn cael ei hystyried. Cydnabuwyd bod y newidiadau strwythurol yn fenter sylweddol i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Esboniodd y swyddogion fod dwy sir yn bwrw ymlaen gyda'r uno ar hyn o bryd ac yn gweithio drwy'r goblygiadau manwl, gan gynnwys nodi prosiectau ar y cyd a meysydd o ddiddordeb cyffredin. Hefyd gall peth gwaith gydweddu â siroedd cyfagos lle bo hynny'n briodol. Mae is-grwpiau wedi'u sefydlu i edrych ar Lywodraethiant ac Adrodd yn ôl, ac ar baratoi'r Asesiad ar y cyd o Lesiant Lleol.

Rhoddwyd diweddariad ar Asesiad y BGC o Lesiant Lleol, sy'n cael ei gynnal bob pum mlynedd i ddadansoddi data ledled yr ardal a chynnwys canfyddiadau yn dilyn ymgysylltu ac ymgynghori. Bydd swyddogion yn parhau â'r gwaith paratoi cyn y cyfarfod nesaf ym mis Ebrill, gan gynnwys sesiynau dyfnach ar bynciau allweddol.

Mae trafodaethau diweddar wedi cynnwys y Gymraeg a newid hinsawdd, gyda disgwyl i'r grŵp hinsawdd adrodd yn ôl ym mis Ebrill gydag argymhellion yn dilyn yr asesiad newid hinsawdd.

Codwyd pryderon ynghylch a allai'r cydweithredu effeithio ar brosiectau sydd ar waith ar hyn o bryd ac ynghylch eglurder ffiniau’r strwythur rhanbarthol. Cydnabuwyd bod trefniadau llywodraethu ar draws cyrff rhanbarthol yn gymhleth, a'i bod yn hanfodol cynnal gweledigaeth glir ar y cyd a sicrhau bod gwaith yn cyd-fynd yn briodol heb ddyblygu.

Rhoddwyd diweddariad ar y grŵp adrodd a sefydlwyd i sicrhau nad oes gwaith yn cael ei golli yn ystod y broses uno. Mae rhaglen waith wedi'i pharatoi ac mae'n barod i'w gweithredu, gan alluogi cynnydd i barhau rhwng nawr a mis Medi. Bydd unrhyw arferion da a nodir yng Ngheredigion yn cael eu rhannu'n ehangach.

Codwyd pryder ynglŷn â phresenoldeb swyddogion Llywodraeth Cymru mewn cyfarfodydd, gan nodi anawsterau blaenorol. Gofynnwyd a fyddai hyn yn gwella o ystyried y newidiadau a ddaw yng Nghaerdydd. Pwysleisiwyd bod eu presenoldeb yn bwysig er mwyn cyfathrebu a deall blaenoriaethau Llywodraeth Cymru yn glir.

Cadarnhawyd bod Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i sicrhau bod uwch-swyddogion yn ymwneud mwy ac yn fwy gweladwy ar draws yr holl Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus. Bydd enw cyswllt enwebedig yn cael ei gadarnhau cyn bo hir.

Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD** derbyn cofnodion drafft cyfarfodydd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion a gynhaliwyd ar 1 Rhagfyr 2025 a 9 Chwefror 2026.

5 **Trosolwg o'r materion ariannol yn ystod y flwyddyn**

Cyflwynodd y Cynghorydd Gareth Davies (Aelod Cabinet ar gyfer Cyllid a Chaffael) yr adroddiad chwarterol ac eglurodd ar adeg chwarter 3 yn y flwyddyn, rhagwelwyd y gellir mantoli’r Gyllideb Reoladwy ar gyfer y flwyddyn gyda thanwariant bach o £107k yn dangos (0.05% o Gyllideb 25/26).

Rhoddodd Duncan Hall, Swyddog Arweiniol Corfforaethol Gweithredol ar gyfer Cyllid a Chaffael a Swyddog Adran 151, drosolwg o'r prif feysydd pwysau a risgiau cost. Fel yn Chwarter 3, roedd 21 o leoliadau preswyl a 8 lleoliad coleg ynghyd â 2 leoliad yn y cyfleusterau newydd sydd o fewn y sir. Y gwariant a ragwelir ar gyfer y flwyddyn yw £9.28 miliwn ar leoliadau y tu allan i'r sir a £0.67m ar gostau lleoliadau yn y sir, o gymharu â chyllideb gyfunol o £9.1 miliwn ar draws Porth Gofal a'r Grŵp Arweiniol, gyda'r ddwy gyllideb bellach yn cael eu rheoli ar y cyd.

Tynnwyd sylw at y ddibyniaeth barhaus ar staff asiantaeth o fewn Gofal Cymdeithasol, oherwydd heriau recriwtio parhaus. Yn ystod Chwarter 3, roedd costau asiantaeth mewn Cartrefi Gofal Preswyl yn oddeutu £21k yr wythnos ar gyfartaledd, gyda'r defnydd bellach bron yn gyfan gwbl wedi'i gyfyngu i un cartref, a dim ond defnydd eithriadol mewn eraill. Mae gweithwyr asiantaeth hefyd yn cael eu defnyddio mewn timau eraill megis Gofal wedi’i Gynllunio, Therapi Galwedigaethol a Thîm Brysbennu Porth Gofal. Mae cost net o £0.75m wedi’i chynnwys o fewn amcanestyniadau

Porth Cynnal (yn dilyn defnydd tybiedig o'r cronfeydd wrth gefn) ac mae cost net o £0.16m wedi'i chynnwys yn amcanestyniadau Porth Gofal (ac eithrio agwedd Cartrefi Gofal Preswyl). Ar 31 Rhagfyr 2025, roedd hyn yn ymwneud â 25 rôl ym Mhorth Cynnal a 6 rôl ym Mhorth Gofal.

Gyda'r cynnydd yn y Premiymau Treth y Cyngor ar gyfer Eiddo Gwag Hirdymor ac Ail Gartrefi yn weithredol oddi ar 1 Ebrill 2024 ynghyd â'r cynnydd pellach yn y premiwm Ail Gartrefi oddi ar 1 Ebrill 2025, mae'r sefyllfa yn parhau i gael ei monitro'n agos i nodi unrhyw dueddiadau sy'n dechrau dod i'r amlwg. Mae nifer yr Eiddo Gwag Hirdymor o fwy na 5 mlynedd wedi parhau i ostwng a bellach gwelir mwy o arwydd bod nifer yr Ail Gartrefi yn mynd tuag i lawr. Fodd bynnag, mae ychydig dros 100 o dai sy'n gysylltiedig â'r Premiwm gydag Asiantaeth y Swyddfa Brisio ar hyn o bryd – lle mae'r bandiau Treth y Cyngor wedi'u dileu dros dro hyd nes y bydd adolygu neu ailasesu; e.e. eiddo sy'n symud o Ardrethi Busnes i Dreth y Cyngor o ganlyniad i fethu â bodloni'r gofyniad i'w osod am 182 diwrnod yn achos y dosbarth hunanarlwyo. Ar hyn o bryd mae'n cymryd rhwng 6 ac 8 mis i gwblhau'r adolygiadau / ailasesiadau hyn.

Adroddwyd tanwariant bach o £107k. Tynnwyd sylw at yr effeithiau posibl sy'n deillio o'r ansefydlogrwydd yn y Dwyrain Canol, yn enwedig mewn perthynas â chontractau ynni ar gyfer nwy, olew a thanwydd. Nodwyd bod dealltwriaeth dda o'r risgiau a'u bod yn cael eu monitro'n agos, gan gynnal briff gwylio i osgoi prynu tanwydd yn ystod cyfnodau o brisiau uchel. Danfonir tanwydd fflyd ar ddechrau pob wythnos a bydd papur briffio yn cael ei ddarparu i'r Cabinet. Ar hyn o bryd mae'r Cyngor yn gwario tua £50k y flwyddyn ar olew gwresogi. Rhoddwyd diweddariad hefyd ar dderbyniadau cyfalaf ar ddiwedd mis Rhagfyr, gan gynnwys gwerthu dwy ysgol. Disgwylir i'r sefyllfa gyfalaf derfynol gael ei chadarnhau ar ddiwedd y flwyddyn.

Rhoddwyd cyfle i'r aelodau ofyn cwestiynau a atebwyd gan Duncan Hall a'r Cynghorydd Gareth Davies. Dyma'r prif bwyntiau a godwyd:

Codwyd cwestiwn ynglŷn â gwahanu cyfraddau casglu yn achos eiddo gwag hirdymor. Cyfeiriwyd at y gyfradd gasglu gyfredol o 88.6%, a cheisiwyd eglurhad ar y lefelau casglu disgwyliedig ar gyfer eiddo heb bremiymau. Cadarnhawyd na fyddai disgwyl i'r gyfradd ddisgyn o dan 96%. Mae gwaith yn mynd rhagddo gyda'r tîm cyfreithiol, gan gynnwys cael cytundebau i sicrhau bod ôl-ddyledion yn cael eu talu ar ôl gwerthu eiddo. Mae dull mwy penodol yn cael ei ddatblygu ar gyfer tai premiwm, gan gynnwys defnyddio mesurau gorfodi o bosib.

Holwyd rhagor am gasglu'r dreth gyngor yn ehangach, gan gynnwys a oedd cynnydd mewn galwadau am gymorth gan drigolion ac a oedd y gostyngiad bach mewn cyfraddau casglu yn adlewyrchu pwysau ariannol ehangach. Nodwyd bod y gwasanaeth yn parhau i gasglu dyledion o flynyddoedd blaenorol, a phrin yw'r achosion o'u dileu. Nid oes problemau sylweddol wedi'u nodi mewn perthynas â chasglu'r dreth gyngor graidd. Ceisiwyd eglurhad ar yr effaith ariannol yn sgil 1% o newid yn y gyfradd gasglu; cadarnhawyd bod 1% yn cyfateb i oddeutu £600,000.

Holwyd ynglŷn â'r defnydd o staff asiantaeth ac a oedd hyn wedi'i gyfyngu i faes gwasanaeth penodol. Eglurwyd y defnyddir staff asiantaeth dim ond yn Hafan y Waun i bob pwrpas, gydag ond defnydd eithriadol mewn lleoliadau eraill.

Nodwyd bod cerbydau Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol naill ai'n cael eu cyfnewid neu eu hanfon i ocsiwn. Cymerir dull corfforaethol o reoli fflyd, gyda'r rhaglen amnewid fflyd yn cael ei chadw fel cynllun cyllido canolog yn hytrach na chael ei neilltuo. Mae gofynion fflyd yn gallu amrywio drwy gydol y flwyddyn ac mae'r Cyngor yn parhau i brynu cerbydau ail-law â milltiredd isel, lle bo'n briodol, i sicrhau gwerth am arian.

Holwyd ynglŷn â'r oedi yn y Swyddfa Brisio ac a oedd senarios oedd yn ymestyn y tu hwnt i wyth mis wedi'u hystyried, ynghyd â chwestiynau am gyfran y staff asiantaeth sy'n cwmpasu rolau statudol a'r camau sy'n cael eu cymryd i liniaru gorwariant ar leoliadau ac ehangu'r ddarpariaeth fewnol. Cadarnhawyd bod ôl-gronni o chwech i wyth mis yn arferol a bod rhai achosion yn cymryd mwy o amser. Ar hyn o bryd mae staff asiantaeth yn cwmpasu holl rolau gweithwyr cymdeithasol statudol rheng flaen oherwydd heriau recriwtio parhaus, gan fod cynnal lefelau staffio priodol yn hanfodol. Rhoddwyd diweddariadau ar leoliadau sirol gan gynnwys lleoli dau berson mewn un lleoliad a lleoli un arall mewn lleoliad arall; ychwanegwyd trydydd yn ddiweddar. Er nad oes disgwyl i leoliadau ychwanegol ddarparu arbedion ariannol sylweddol, ystyrir eu bod yn darparu'r canlyniadau gorau i blant.

Holwyd ynglŷn â'r tanwariant o fewn Priffyrdd. Eglurwyd bod y sefyllfa yn ymwneud â'r rhaglen gyfalaf a bod gwaith parhaus i wella strwythurau'r ffyrdd wedi'i gefnogi gan fenthyciadau llywodraeth leol a chyllid blaenoriaeth Llywodraeth Cymru. Mae'r Cyngor wedi cyfrannu £2.1m o'i gyllid craidd ei hun ac wedi gwario cymaint â phosibl o fewn y dyraniadau sydd ar gael, ar ôl gofyn i Lywodraeth Cymru a oedd cyllid ychwanegol i'w ddarparu, nad oedd ar gael. Bydd addasiad yn cael ei wneud cyn diwedd y flwyddyn. Cyfeiriwyd at faterion llifogydd a gwaith yn y Borth, ac eglurwyd bod rheoli'r graean yn Harbwr Aberaeron yn cael ei drin fel cost refeniw.

CYTUNWYD i nodi'r adroddiad.

## 6 RIPA

Gwnaeth y Cynghorydd Matthew Vaux, Aelod Cabinet dros Bartneriaethau, Tai, Gwasanaeth Cyfreithiol a Llywodraethu a Diogelu'r Cyhoedd, gyflwyno'r adroddiad i'r Pwyllgor gan nodi na fu gweithgarwch RIPA gan unrhyw wasanaeth o'r Cyngor yn ystod y cyfnod rhwng 16 Medi 2025 ac 16 Chwefror 2026.

Adolygwyd y Polisi RIPA ddiwethaf gan y Pwyllgor ar 22 Hydref 2025 ac fe'i cymeradwywyd wedyn gan y Cyngor ar 27 Tachwedd 2025. Disgwylir i'r Polisi gael ei adolygu ym mis Hydref 2026 a bydd yn cael ei ddwyn yn ôl i'r Pwyllgor.

Cynhaliwyd y sesiwn hyfforddi RIPA ddiweddaraf ar 16 Hydref 2025 ac fe'i cyflwynwyd ar gyfer Swyddogion Awdurdodi. Roedd chwe swyddog yn

bresennol gan gynnwys y pedwar Swyddog Awdurdodi, yr Uwch-swyddog Cyfrifol a’r Cydlynydd RIPA. Mae'r sesiwn hyfforddi RIPA nesaf ar gyfer swyddogion sy'n gweithio'n uniongyrchol gyda gwyliadwriaeth wedi'i threfnu ar gyfer 15 Mai 2026. Yn ogystal mae modiwl e-ddysgu newydd ar RIPA yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd gan y tîm Dysgu a Datblygu a bydd ar gael i'r holl weithwyr. Rhoddir y diweddaraf ar gynnydd y gwaith yn y diweddariad nesaf i’r pwyllgor craffu.

Holwyd am Adroddiad Blynyddol Swyddfa'r Comisiynydd Pwerau Ymchwilio (IPCO); yn benodol a oedd yn berthnasol ledled y DU, ac a oedd yn cadarnhau bod yr holl arolygiadau wedi'u cwblhau heb anawsterau. Eglurwyd bod yr adroddiad ledled y DU a bod yr holl arolygiadau y cyfeirir atynt ynddo wedi'u cyflawni a bod y canfyddiadau wedi'u cyhoeddi ar wefan yr IPCO. Gofynnir am eglurhad pellach a rhoddir diweddariad i'r aelodau.
Cododd Aelod gwestiwn ynglŷn â phenderfyniad diweddar y Cyngor i ganiatáu defnyddio dronau ac a yw pob gweithgarwch o'r fath yn dod o fewn cwmpas RIPA. Cadarnhawyd nad yw defnyddio dronau yn dod o dan ofynion RIPA. Trafodwyd hyn gyda'r swyddogion perthnasol mewn cyfarfodydd a gynhaliwyd y llynedd.
Gwnaed awgrym y byddai modiwl e-ddysgu yn ddefnyddiol hefyd i aelodau etholedig fel rhan o'u hyfforddiant.

**7 CYSUR/CWMPAS**

Gwnaeth y Cynghorydd Alun Williams, Aelod o’r Cabinet dros Lesiant Gydol Oes, gyflwyno’r adroddiad i'r Pwyllgor. Dyma’r prif bwyntiau a nodwyd:

➢ Arweiniodd 167 o adroddiadau / atgyfeiriadau at Weithdrefnau Diogelu Plant ac yna
Trafodaethau Strategaeth Cychwynnol Amddiffyn Plant – a oedd ychydig yn uwch
na’r chwarter blaenorol ond yn sylweddol is na’r chwarteri cyn hynny.
➢ Roedd 1176 o gysylltiadau / atgyfeiriadau yn ystod y chwarter hwn, o gymharu ag
1186 o gysylltiadau / atgyfeiriadau yn ystod Chwarter 1.
➢ Yn ystod y chwarter hwn, aeth 14.2% ymlaen i’r cam Trafodaeth Strategaeth (roedd
hyn yn ymwneud â 249 plentyn), aeth 7.7% ymlaen i Ymholiad o dan Adran 47, ac
aeth 0.8% ymlaen i Gynhadledd Gychwynnol Amddiffyn Plant (roedd hyn yn ymwneud ag 16 plentyn). Yn ystod Chwarter 1 aeth 13.8% ymlaen i’r cam Trafodaeth Strategaeth, aeth 5.1% ymlaen i Ymholiad o dan Adran 47, ac aeth 0.9%
ymlaen i Gynhadledd Gychwynnol Amddiffyn Plant.
➢ Yn ystod y chwarter hwn, roedd 16 plentyn yn destun Cynhadledd Gychwynnol
Amddiffyn Plant o gymharu â 17 plentyn yn ystod Chwarter 1 ac roedd hyn yn
sylweddol is na’r chwarteri blaenorol.

➢ Rhoddwyd 16 plentyn ar y Gofrestr Amddiffyn Plant.
➢ Tynnwyd 17 plentyn oddi ar y gofrestr o gymharu â 33 yn ystod y chwarter diwethaf.
➢ Daeth y nifer uchaf o atgyfeiriadau oddi wrth yr Heddlu ac yna Addysg.
➢ Cynhaliwyd 90 o ymholiadau o dan Adran 47 yn ystod y chwarter hwn. Cynhaliwyd
73 ar y cyd gyda'r Heddlu a chynhaliwyd 17 fel asiantaeth sengl, o gymharu â'r 60
o ymholiadau o dan Adran 47 a gynhaliwyd yn ystod Chwarter 1.
➢ Y prif bryderon a arweiniodd at gynnal ymholiadau amddiffyn plant yn ystod
Chwarter 2 oedd honiadau ynghylch cam-drin corfforol, cam-drin rhywiol / camfanteisio'n rhywiol, ac esgeulustod.
➢ Cynhaliwyd 86.7% o'r Cynadleddau Cychwynnol Amddiffyn Plant o fewn y terfyn
amser o 15 diwrnod, o gymharu â 58.8% yn Chwarter 1 a dengys hyn y bu gwelliant
sylweddol o'r chwarteri blaenorol.
➢ Cynhaliwyd 100% o gyfarfodydd y Grŵp Craidd o fewn y terfyn amser o 10 diwrnod
yn dilyn y Cynadleddau Cychwynnol Amddiffyn Plant.
➢ Cynhaliwyd 96.3% o'r Cynadleddau Adolygu Amddiffyn Plant o fewn y terfynau
amser.
➢ Y prif ffactorau risg ar gyfer y plant a oedd ar y gofrestr ar ddiwedd Chwarter 2 oedd
cam-drin domestig, rhieni'n camddefnyddio sylweddau, a rhieni'n gwahanu.
➢ Roedd 31 o blant ar y gofrestr ar ddiwedd Chwarter 2 o gymharu â 32 ar ddiwedd
Chwarter 1.
➢ Ar ddiwedd Chwarter 2, roedd 1 plentyn wedi bod ar y gofrestr ers dros 2 flynedd
ac roedd 4 plentyn wedi bod ar y gofrestr am gyfnod rhwng 1 a 2 flynedd.
➢ Y prif gategori o gamdriniaeth a arweiniodd at roi'r plant ar y gofrestr oedd esgeulustod (20) ac yna cam-drin corfforol (6), cam-drin emosiynol / seicolegol (4)
a cham-drin rhywiol (1).
➢ Trafodwyd 46 o achosion mewn Cyfarfodydd Strategaeth; cynhaliwyd 61 cyfarfod i
gyd. Roedd 10 achos yn ymwneud â chamfanteisio ar blant a chynhaliwyd 17
cyfarfod yn benodol ynghylch hyn.

➢ O ran **DIOGELU OEDOLION**, adroddwyd bod 198 o oedolion mewn perygl yn ystod
y chwarter hwn o gymharu â 193 yn Chwarter 1. Mae hyn yn ymwneud â 241 adroddiad yn Chwarter 2 o gymharu â 238 adroddiad yn Chwarter 1.

➢ Daeth y nifer uchaf o atgyfeiriadau / adroddiadau oddi wrth staff yr Awdurdod Lleol
(57), yna'r nifer fwyaf wedi hynny oedd gan yr Asiantaethau Darparu (52), yr Heddlu
(30), Perthnasau / ffrindiau (25), a'r Bwrdd Iechyd (24). Staff yr Awdurdod Lleol ac
yna'r Asiantaethau Darparu ddarparodd y nifer uchaf o atgyfeiriadau yn y chwarter
blaenorol hefyd.
➢ Y prif gategori o gamdriniaeth yn ystod y chwarter hwn oedd cam-drin emosiynol /
seicolegol, gyda 103 o adroddiadau'n nodi bod oedolion mewn perygl yn dioddef
hyn. Roedd 90 adroddiad yn nodi esgeulustod, 77 yn nodi cam-drin corfforol, 51 yn
nodi cam-drin ariannol a 23 yn nodi cam-drin rhywiol. Ymhob un o'r categorïau o
gamdriniaeth, menywod oedd y dioddefwyr gan amlaf.
➢ Mewn achosion lle'r oedd angen cymryd camau diogelu, adroddwyd mewn 69
ymholiad bod angen hyn yng nghartref yr unigolyn ei hun, 17 yn y gymuned, 15
mewn lleoliad gofal cartref a 6 mewn lleoliad gofal iechyd.
➢ O ran y bobl yr honnwyd eu bod yn gyfrifol am y gamdriniaeth, cofnododd yr
ymholiadau fod 54 yn berthnasau / ffrindiau, 30 yn weithwyr cyflogedig, 26 yn bobl
"arall" a 3 yn ddefnyddwyr gwasanaeth eraill mewn lleoliad gofal.

Rhoddwyd cyfle i'r Aelodau ofyn cwestiynau. Dyma'r prif bwyntiau a godwyd:

Holwyd ynglŷn â'r ffigurau ar dudalen 79, gan nodi bod 198 o oedolion wedi'u hadrodd; gofynnwyd am eglurhad ynghylch a yw'r niferoedd uwch a gofnodwyd gan asiantaethau darparu yn ymwneud ag ymweliadau ag unigolion yn eu cartrefi eu hunain. Nodwyd bod cyfran sylweddol o atgyfeiriadau diogelu yn ystod y cyfnod adrodd yn ymwneud â gofal preswyl a gofal cartref. Roedd nifer fawr o'r atgyfeiriadau hyn yn deillio o gartrefi gofal a oedd wedi dechrau proses pryderon darparwr, gan gyfrannu at y ffigurau uwch a gofnodwyd.

Codwyd pryder ynglŷn ag unigolion sydd gartref ac sydd ddim yn derbyn gofal o gwbl o bosib. Cadarnhawyd nad oes darparwyr gofal newydd yn dod i mewn i'r farchnad ar hyn o bryd, sy'n creu heriau sylweddol wrth i gontractau presennol ddod i ben. Esboniodd swyddogion, pan fo person gartref angen gofal ac nad yw'n ei dderbyn ar hyn o bryd, rhaid adolygu'r achos, asesu'r unigolyn a threfnu pecyn gofal priodol i sicrhau bod ei anghenion yn cael eu diwallu. Eglurwyd bod honiadau a phryderon o gamdriniaeth neu esgeulustod yn ymwneud yn benodol ag achosion sydd wedi cael eu cyfeirio a'u hasesu. Felly yn achos unigolion sydd angen gofal ond sydd ddim yn ei dderbyn ar hyn o bryd, ni fyddent yn ymddangos yn y ffigurau hyn.

Cydnabuwyd bod bylchau yn gallu codi lle nad oes darpariaeth gofal ar gael, yn enwedig os nad oes asiantaethau yn gweithredu yn yr ardal ar y pryd, gan gynyddu'r risg fod rhai unigolion ddim yn cael eu gweld. Pwysleisiodd y swyddogion fod darparu'r holl ofal angenrheidiol yn y gymuned yn parhau i fod yn her sylweddol, gydag ymdrechion parhaus a dwys o ran recriwtio ac ymgysylltu â darparwyr. Anogwyd yr Aelodau i gysylltu â'r adran yn uniongyrchol os ydynt yn dod i wybod am rywun a allai fod heb ofal hanfodol. Nodwyd mai dim ond y Cyngor all fonitro'r ddarpariaeth, a bod hi’n ofynnol i'r holl staff adrodd am gamdriniaeth dybiedig. Holwyd am chwythu'r chwiban o fewn y Gwasanaeth Oedolion, gan gynnwys camau a gymerir i gryfhau prosesau, yr hyfforddiant a ddarperir, a’r hyder yn y trefniadau presennol. Cadarnhaodd y swyddogion fod hyfforddiant yn cael ei ddarparu i'r holl staff, gan gynnwys rhai o asiantaethau allanol.

Eglurwyd bod y gweithwyr cyflogedig y cyfeirir atynt yn yr adroddiad yn gallu cynnwys staff o asiantaethau iechyd, asiantaethau darparwyr, neu eraill mewn swyddi o ymddiriedaeth broffesiynol, fel y'u diffinnir yn Adran 5 o Weithdrefnau Diogelu Cymru 2019. Dilynir gweithdrefn benodol i reoli pryderon o'r fath, gan gynnwys cyfarfodydd strategaeth a chamau gweithredu megis hyfforddiant ychwanegol, mwy o oruchwyliaeth neu, lle bo angen, prosesau disgyblu os asesir bod unigolyn yn peri risg i bobl fregus. Nodwyd y gallai Adnoddau Dynol ddarparu rhagor o fanylion am y prosesau hyn. Cadarnhaodd y Rheolwr Corfforaethol fod arferion recriwtio cadarn a diogel ar waith, wedi’u cefnogi gan sesiynau sefydlu trylwyr a hyfforddiant diogelu i sicrhau bod staff yn addas ar gyfer eu rolau ac yn deall eu cyfrifoldebau proffesiynol.

Nododd yr Aelodau mai Aberystwyth sydd yn cofnodi'r nifer uchaf o atgyfeiriadau diogelu yn hanesyddol, ond bod y ffigurau yn y ddau chwarter diwethaf wedi mwy na haneru. Holwyd ynglŷn â'r rheswm dros y duedd hon, gyda phryderon y gallai gostyngiad mor fawr, heb reswm hysbys, ddynodi bod atgyfeiriadau wedi’u colli. Cadarnhaodd swyddogion nad oedd newidiadau wedi’u gwneud i'r system na'r broses, a bod Gweithdrefnau Diogelu Cymru yn parhau i fod yn berthnasol. Mae'r broses atgyfeirio yn aros yr un fath, a gofynnir i'r tîm ystyried a ydyn nhw'n ymwybodol o unrhyw ffactorau sydd wrth wraidd hyn. Nodwyd hefyd fod gostyngiadau tebyg wedi'u gweld yn Aberteifi a Llanbedr Pont Steffan. Er y gall y gostyngiad adlewyrchu gwaith da o ran ymyrryd ac atal yn gynnar, cwestiynodd yr Aelodau a allai hyn ar ei ben ei hun esbonio'r newid. Bydd dadansoddiad pellach yn cael ei gynnal i weld a yw'r duedd yn adlewyrchu gwelliant gwirioneddol neu'n arwydd o broblem bosibl.

CYTUNWYD i nodi’r adroddiad.

**8 Rhaglen Flaen Ddrafft**

Rhoddodd pob Cadeirydd/Is-gadeirydd yn ei dro ddiweddariad ar Flaenraglenni Gwaith eu Pwyllgor nhw.

**9 I gadarnhau cofnodion y cyfarfod blaenorol ac ystyried unrhyw faterion sy'n codi o'r cofnodion**

**CYTUNWYD** i gadarnhau bod cofnodion cyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 26 Ionawr 2026 yn gywir. Nid oedd materion yn codi o'r cofnodion hynny.

**10 Unrhyw fater arall y penderfyna'r Cadeirydd ei fod er sylw brys y Pwyllgor**

**CYTUNWYD** i gadarnhau bod cofnodion cyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 26 Ionawr 2026 yn gywir. Nid oedd materion yn codi o'r cofnodion hynny.

**Cadarnhawyd yng Nghyfarfod y Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu a gynhaliwyd ar Dydd Iau, 5 Mawrth 2026**

**Cadeirydd:________________**

**Dyddiad:__________________**